------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 3 Mai 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

## 66(v4)

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

(15 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau amserol

(20 munud)

**I Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon**

Jeremy Miles (Castell-nedd): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ei benderfyniad i gymeradwyo defnyddio proffylacsis cyn-gysylltiad yng Nghymru fel rhan o astudiaeth?

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**I Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon**

Darren Millar (Gorllewin Clwyd): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am yr archwiliad sy’n cael ei gynnal gan Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr i adroddiadau y gallai ansawdd y gofal a gafodd cleifion dementia ar ward Tawel Fan yn Ysbyty Glan Clwyd fod wedi cyfrannu at o leiaf saith o farwolaethau?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Dadl ar ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i'r Grant Gwella Addysg: plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a phlant o leiafrifoedd ethnig

(60 munud)

**NDM6296** Lynne Neagle (Torfaen)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar yr ymchwiliad i'r Grant Gwella Addysg: Plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a phlant o leiafrifoedd ethnig a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Chwefror 2017.

**Dogfen ategol:**

Ymateb gan Lywodraeth Cymru (PDF, 405KB)

## 6 Dadl Plaid Cymru

(60 munud)

**NDM6295** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu bod gwasanaethau cyhoeddus lleol o safon yn allweddol i ffyniant a llesiant ein cenedl.

2. Yn gresynu bod cyllid ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gostwng 6.5 y cant ers 2011-12, gan effeithio'n anghymesur ar rai o'r bobl mwyaf gwan a hawdd eu niweidio mewn cymunedau ledled Cymru.

3. Yn cydnabod y rhan bwysig y mae awdurdodau lleol yn ei chwarae o ran:

a) datblygu economïau lleol mewn partneriaeth â'r gymuned fusnes;

b) sicrhau bod ein strydoedd yn lân ac yn ddiogel;

c) darparu addysg o safon; a

d) darparu gofal gwasanaethau cymdeithasol sy'n gofalu am y bobl mwyaf bregus mewn cymunedau ledled Cymru.

4. Yn nodi bod cyfartaledd cyflog Prif Weithredwyr Cynghorau a gaiff eu harwain gan Blaid Cymru bron £22,000 yn is na'r Cynghorau yng Nghymru a gaiff eu harwain gan Lafur.

5. Yn credu y dylai prosiectau datblygu tai fforddiadwy lleol fod yn seiliedig ar anghenion y gymuned.

6. Yn nodi llwyddiant y model tracio datblygiad plentyn, a ddefnyddir gan Gyngor Ceredigion - yr unig gyngor a ddyfarnwyd gan Estyn ei fod yn perfformio'n rhagorol yng Nghymru yn y cylch llawn diwethaf o arolygiadau - i sicrhau bod plant yn cyrraedd eu llawn botensial, gyda chymorth yn gynnar iawn i'r rhai nad ydynt yn cyflawni yn ôl y disgwyl.

7. Yn gresynu bod canran cyfanswm gwariant caffael llywodraeth leol yng Nghymru wedi parhau'n sefydlog ar 58 y cant ers 2012.

8. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddileu contractau dim oriau yn y sector gofal cymdeithasol.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** [Jane Hutt (Bro Morgannwg)]

Dileu popeth ar ôl pwynt 1.

*[Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliannau 2, 3, 4 a 5 yn cael eu dad-ddethol]*

**Gwelliant 2.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn gresynu bod cyllid ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gostwng 6.78 y cant ers 2013-14, gan effeithio'n anghymesur ar ein cymunedau gwledig, gan gynnwys toriadau o 9.98 y cant i Sir Fynwy, 9.36 y cant i Fro Morgannwg a 7.96 y cant i Gonwy.

**Gwelliant 3.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Dileu pwynt 4 a rhoi yn ei le:

Yn nodi mai cyflog Prif Weithredwr Cyngor Sir Fynwy, a gaiff ei arwain gan y Ceidwadwyr Cymreig yw un o'r isaf yng Nghymru, ac yn cymeradwyo tryloywder y cyngor o ran cyhoeddi pob gwariant.

**Gwelliant 4.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Dileu pwynt 6 a rhoi yn ei le:

Yn nodi hawl pob plentyn a pherson ifanc i gael cyfle i gyrraedd eu llawn botensial, ac yn nodi pwysigrwydd cyllid uniongyrchol ar gyfer ysgolion o ran galluogi rhieni i allu dewis yr ysgol orau i'w plant.

**Gwelliant 5.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Dileu pwynt 8 a rhoi yn ei le:

Yn nodi gwerth gweithwyr gofal cymdeithasol o ran cynorthwyo gwasanaethau'r GIG sydd wedi'u canoli a'u gor-lwytho, a phwysigrwydd integreiddio rhwng y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

## 7 Dadl Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig

(60 munud)

**NDM6297** David J Rowlands (Dwyrain De Cymru):

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cyfarwyddo Llywodraeth Cymru i adolygu ei pholisïau cynhyrchu ynni a'i pholisi effaith amgylcheddol.

2. Yn nodi bod nod o gyflawni economi di-garbon yng Nghymru.

3. Yn credu:

a) mai cymunedau ddylai gael y gair olaf o ran cymeradwyo ffermydd solar yn eu hardal;

b) na ddylai coed aeddfed gael eu torri er mwyn adeiladu ffermydd solar; ac

c) y dylid cefnogi'r ffordd y mae adeiladau preswyl, y sector cyhoeddus a busnesau yn defnyddio llai o ynni, drwy:

i) annog gosod ffenestri gwydr triphlyg mewn adeiladau preswyl ac adeiladau eraill; a

ii) annog gosod boeleri sy'n rhad ar danwydd.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi strategaeth bolisi Llywodraeth Cymru ar ynni sef Ynni Cymru.

2. Yn nodi'r targed deddfwriaethol o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru o leiaf 80 y cant erbyn 2050.

3. Yn cydnabod y ffaith bod y system gynllunio'n creu cyfleoedd i warchod tirwedd unigryw Cymru a hefyd yn hyrwyddo cyfleoedd i gynhyrchu ynni adnewyddadwy.

Ynni Cymru

*[Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliannau 2, 3, 4, 5, 6 a 7 yn cael eu dad-ddethol]*

**Gwelliant 2.** [Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)]

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 1:

'gyda'r nod o sicrhau 40 y cant o ostyngiad mewn allyriadau carbon erbyn 2020, gostyngiad o 80 y cant mewn allyriadau carbon erbyn 2050 ac economi ddi-garbon.'

**Gwelliant 3.** [Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)]

Dileu pwynt 2.

**Gwelliant 4.** [Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)]

Yn is-bwynt 3(a) dileu 'mai cymunedau ddylai gael y gair olaf' a rhoi yn ei le 'y dylai cymunedau gael mynegi barn'.

**Gwelliant 5.** [Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)]

Cynnwys ar ddiwedd is-bwynt 3(a):

'drwy strwythurau democrataidd lleol a chenedlaethol ar gyfer gwneud penderfyniadau, ar sail egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.'

['Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015']

**Gwelliant 6.** [Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)]

Dileu is-bwynt 3(b).

**Gwelliant 7.** [Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)]

Dileu is-bwynt 3(c) a rhoi yn ei le:

'y dylid cefnogi'r ffordd y mae adeiladau preswyl, y sector cyhoeddus a busnesau yn defnyddio llai o ynni, gyda rheoliadau adeiladu cryfach ar gyfer adeiladau newydd i fod bron yn ddi-ynni a thrwy raglen ôl-ffitio ar raddfa fawr ar gyfer cartrefi preswyl presennol.'

## 8 Cyfnod pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6294** Hannah Blythyn (Delyn)

Ysgol Wleidyddiaeth - grymuso'r genhedlaeth nesaf o ddinasyddion gweithgar yng Nghymru

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 9 Mai 2017

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 25 Ebrill 2017 i'w hateb ar 3 Mai 2017

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

**1. Mark Reckless (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am nifer y seddau lle na chynhelir etholiad yn etholiadau llywodraeth leol Cymru? OAQ(5)0126(FLG)

**2. Hannah Blythyn (Delyn):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio ei phwerau trethu i gefnogi busnesau'r stryd fawr yng Nghymru? OAQ(5)0115(FLG)

**3. Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn seilwaith yng Nghymru? OAQ(5)0119(FLG)

**4. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y gwasanaethau ddarperir gan Gyngor Ynys Môn? OAQ(5)0116(FLG)**W**

**5. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu pa gyfraniad y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud i Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd? OAQ(5)0120(FLG)

**6. Gareth Bennett (Canol De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddarlledu cyfarfodydd cynghorau ar-lein yng Nghymru? OAQ(5)0123(FLG)

**7. David Melding (Canol De Cymru):** Pa drafodaethau y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'u cael ag awdurdodau lleol i sicrhau defnydd arloesol o gyllid i ddiogelu gwasanaethau ieuenctid lleol? OAQ(5)0124(FLG)

**8. Sian Gwenllian (Arfon):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ardrethi busnes mewn perthynas â phrosiectau ynni cymunedol? OAQ(5)0117(FLG)**W**

**9. Eluned Morgan (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am fabwysiadu'r cyflog byw gwirioneddol yng Nghymru? OAQ(5)0127(FLG)

**10. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i wella trylowder mewn awdurdodau lleol yng Nghymru? OAQ(5)0121(FLG)

**11.** **Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer llywodraeth leol yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol? OAQ(5)0125(FLG)

**12.** **Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu cyfranogiad democrataidd mewn llywodraeth leol? OAQ(5)0122(FLG)

**13.** **Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Beth yw asesiad Llywodraeth Cymru o berfformiad Cyngor Caerdydd o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus dros y pum mlynedd diwethaf, o'i gymharu â'r pum mlynedd cyn hynny? OAQ(5)0118(FLG)

**14.** **Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau pellach y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'u cynnal ar y fframwaith cyllidol? OAQ(5)0128(FLG)**W**

## Gofyn i Gomisiwn y Cynulliad

**1.** **Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff Comisiwn y Cynulliad roi dyddiad penodol ar gyfer symud o Senedd.tv i YouTube? OAQ(5)0005(AC)

**2.** **Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Comisiwn ddatganiad am waith sy'n cael ei wneud i hyrwyddo mynediad a dealltwriaeth y cyhoedd o waith y Cynulliad? OAQ(5)0007(AC)**W**

**3.** **Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Beth y mae Comisiwn y Cynulliad yn ei wneud i sicrhau bod y Cynulliad yn lle mwy cyfeillgar i blant? OAQ(5)0006(AC)